**Gweddi am Iesu'r Groes**

O Iesu,
y bendigedig Iesu;
O Iesu, a fu farw
yn ieuanc ar y groes,
dod arnom di dy enw,
yn awr ym mhrofiadau dyrys ein hoes.

Boed i'th eiriau a lefarwyd ar y Groes fod yn ein calon: 'Heddiw y byddi gyda mi ym mharadwys'; 'Gorffennwyd'; 'O Dad maddau iddynt canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur'. Boed y cyfan yn ein calon, yn ysbryd o gariad a maddeuant, i'n cyfarwyddo ninnau'r munudau hyn.

Syllaf ar dy Groes, ni fu Cariad erioed debyg i'r cariad hwn.
'Mae Calfaria'n profi digon,
saint ac engyl byth a'i gŵyr;
er i'r groes fod yn y llwybr
bydd goleuni yn yr hwyr.'
Y mae dy ddwylo yn ein cofleidio ni oll yn dy gariad, ond trwy fy mhechod yr wyf wedi dy drywanu di, Fab Duw, ac yn dal i glwyfo'r Oen dieuog yn f'euogrwydd personol fy hun.

Yr wyf mewn tristwch; gwna fi yn edifeiriol o galon ac o gydwybod. Rho i mi ddagrau fel y medraf wylo yn hidl. Rho i mi nerth fel y medraf ailgychwyn. Gwn fod dau beth yn cofleidio ei gilydd yng Nghrist Iesu: cyfiawnder a thangnefedd. Deubeth sydd yn gwbl groes i'w gilydd fel y gwyddom o brofiad. Gallwn ddweud fod y cyfiawnder sydd yn natur Duw yn anfodlon â'n troseddau a'n beiau. Ac eto, o'r Groes fe gawn ein syfrdanu, yn y sicrwydd fod Iesu Grist wedi marw fel aberth am ein pechod. 'Caed trefn i faddau pechod yn yr Iawn.'

Cymer fi i dy fynwes dy hun, cadw fi yn dy glwyfau, fel y medraf gofio bob eiliad dy bresenoldeb, fel y medraf dy garu mewn poen ac iechyd ar y ddaear ac yn y nef, gan ddisgwyl bod gyda Thi byth bythoedd.
'Tro fy nghalon rhag dibynnu
ar un dim ond grym y gras
roes Mab Duw yn lle'r troseddwr,
droes y Brenin Mawr yn was.'
Iddo ef y byddo'r gogoniant. Amen.